



Mynna lais.
Mynna ddewis.



Mynna lais. Mynna ddewis.

Cynnwys

- 3 Deall Gwleidyddiaeth a Democratiaeth - Persbectif Ledled y DU**
- 12 12 Ffordd i Bobl Ifanc Gymryd Rhan mewn Gwleidyddiaeth**
- 23 Llywodraeth Leol - Gymryd rhan drwy gael eich ethol!**
- 40 Sut i Gynnal Hystings**

Deall Gwleidyddiaeth a Democratiaeth

Persbectif Ledled y DU

Ysgrifennwyd gan Kirstie Edwards, Swyddog Prosiect
a Chyfranogiad yn Youth Cymru



Gall gwleidyddiaeth a democratiaeth ledled y DU edrych ychydig yn wahanol yn dibynnu ar ble rydych chi'n byw. Ar y tudalennau nesaf byddwn yn edrych ar ystyr lawn democratiaeth – nid dim ond pleidleisio a bwrw eich croes ar ddiwrnod yr etholiad - er bod hon yn rhan bwysig ohono - a sut gallwch chi gymryd rhan yn eich cornel chi o'r DU.

Mae democratiaeth yn ymwneud â dweud eich dweud a chymryd rhan drwy gydol y flwyddyn. Y cam cyntaf yw cydnabod yr hyn rydych yn angerddol yn ei gylch. Yr ail gam yw dewis beth yw'r ffordd orau o weithredu; boed yn weithredu cymdeithasol neu'n ddeiseb, protestio, ymgyrchu, pleidleisio neu gysylltu â'ch cynrychiolydd etholedig.



Sut mae’r strwythur yn eich gwlad chi?

Nawr gwrandewch yn ofalus - dyma lle gall pethau fod yn ddryslyd!

Mae gennych chi fwy nag un cynrychiolydd etholedig. Cynrychiolir pawb yn y DU gan AS a sawl Cynghorydd, ac mae rhai hefyd yn ethol Maer. Os ydych chi’n byw mewn **gwlad ddatganoledig** (Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon) byddwch yn **ethol aelodau’r senedd/ddeddfwrfa ddatganoledig honno** hefyd. Yng Nghymru fe’u gelwir yn **AS** (Aelodau’r Senedd), yn yr Alban **MSP** (Aelodau Senedd yr Alban) ac yng Ngogledd Iwerddon **MLA** (Aelodau’r Cynulliad Deddfwriaethol). **Etholir cynghorwyr fesul Ward/Rhanbarth** i’ch cynrychioli ar lefel llywodraeth leol. Bydd gennych nifer o Gynghorwyr sy’n eich cynrychioli ar Lefel Cyngor Dinas neu Sir a elwir yn aml yn Awdurdod Lleol.

Mae gan **Ogledd Iwerddon** 90 Aelod o’r Cynulliad Deddfwriaethol (MLA). Yng Ngogledd Iwerddon byddai gennych 5 MLA Etholaethol.

Mae gan **Gymru** 60 Aelod o Senedd Cymru (AS). Os ydych yn byw yng Nghymru byddai gennych 1 AS Etholaeth a 4 AS Rhanbarthol.

Mae gan yr **Alban** 129 o Aelodau Senedd yr Alban (MSP). Os ydych yn byw yn yr Alban byddai gennych 1 MSP Etholaethol a 7 MSP Rhanbarthol.

Mae gan y **DU** 650 o Aelodau Seneddol (AS). Mae pob aelod yn cynrychioli un etholaeth.



Beth yw'r gwahanol lefelau o lywodraethu a sut maent yn effeithio arnaf i?

Llywodraeth Leol: Mae Llywodraeth Leol (eich Cyngor / Awdurdod Lleol) yn delio â phethau lleol – eich **biniau**, **strydoedd**, **adeiladau cyhoeddus** a **mannau agored** fel eich parciau a'ch ysgolion lleol. Bydd gan rai pobl yn y DU Gyngor **Cymuned**, **Tref** neu **Blwyf hefyd**. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol (Cyngorau) yn dewis y model '**arweinydd a chabinet**' lle dewisir arweinydd y cyngor o blith y cynghorwyr, ond mewn rhai ardaloedd mae ganddynt fodel '**maer a chabinet**', lle sefydlir maer a etholir yn uniongyrchol i gymryd lle arweinydd y cyngor. Mae'r **Arweinydd neu'r Maer yn dewis y Cabinet**.


Llywodraeth Ddatganoledig: Mae Llywodraethau Datganoledig (Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon) yn goruchwyllo'r pethau mawr e.e. **Iechyd**, **Addysg**, **Diwylliant**, **Chwaraeon**, **Amaethyddiaeth**, **Trafnidiaeth a Llywodraeth Leol**. Mae gan lywodraethau datganoledig **bwerau deddfu** ar gyfer y rhain. Daw **arweinydd** y blaid wleidyddol sydd â'r nifer **mwyafrif o seddi** mewn senedd ddatganoledig yn **Brif Weinidog** gan ffurfio llywodraeth a dewis cabinet.

Llywodraeth y DU: Mae **arweinydd y blaid wleidyddol sydd â'r mwyafrif o ASau** yn senedd y DU yn dod yn **Brif Weinidog** ac yn ffurfio llywodraeth ac yn dewis y cabinet. Mae Llywodraeth y DU yn gofalu am bethau i bobl yn **Lloegr yn unig**, ac mae penderfyniadau ar y **materion hyn wedi'u datganoli i Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon**. Mae llywodraeth y DU hefyd yn gofalu am **gysylltiadau tramor**, **amddiffyn**, **y cyfansoddiad**, **mewnfudo** a sawl agwedd ar **bolisi economaidd** ar gyfer y DU gyfan. Pwerau a gadwyd yn ôl yw'r rhain. Mae hyn yn golygu mai **dim ond senedd a llywodraeth y DU all wneud penderfyniadau ar y materion hyn**.


Llywodraeth Leol



Llywodraeth Ddatganoledig



Llywodraeth y DU



Mae Senedd y DU yn deddfu ar gyfer Lloegr ac ar gyfer y DU. Mae Senedd y DU yn craffu ar Lywodraeth y DU. Mae Senedd y DU (San Steffan yn Llundain) yn cynnwys 3 pheth.

1. Brenhiniaeth

Mae ganddi sêl bendith derfynol ar unrhyw ddeddfwriaeth – gelwir hyn yn 'Gydsyniad Brenhinol'. Er bod gan y Frenhiniaeth yr hawl i wrthod Cydsyniad Brenhinol, y dyddiau yma nid yw hyn yn digwydd, a mater o ffurfioldeb ydyw bellach.

2. Tŷ'r Cyffredin

"Pobl gyffredin" sydd wedi cael eu hethol gan bobl gyffredin.

3. Tŷ'r Arglwyddi

Nid yw'r rhain yn cael eu hethol. Yn hanesyddol, roedd y rhain yn cael eu trosglwyddo mewn deuluoedd, ond mae'r aelodau bellach yn cael eu rôl drwy gael eu penodi gan y Frenhines ar gyngor y prif weinidog neu eu henwebu gan Gomisiwn Penodi Tŷ'r Arglwyddi.

Yn gyffredinol, mae'n rhaid i benderfyniadau a wneir mewn un Tŷ gael eu cymeradwyo yn y llall. Os yw **Tŷ'r Cyffredin yn cynnig** cyfraith newydd, mae angen i **Dŷ'r Arglwyddi** ei **chymeradwyo** cyn iddi gael ei **chymeradwyo**, a'i chefnogi wedyn gan y **Frenhines**. Gelwir hyn yn **system siambr ddwy ffordd**.

Fel senedd y DU, **mae'r seneddau datganoledig yn craffu ar y Llywodraethau datganoledig**. Felly mae Senedd Cymru yn deddfu ar gyfer Cymru ac yn herio ac yn archwilio'n drylwyr ac yn ofalus. Un gwahaniaeth yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yw **nad oes ganddynt ail siambr fel Tŷ'r Arglwyddi** yn San Steffan. Mae gan **bob senedd ddatganoledig bwerau deddfu** a gallant greu cyfreithiau am feysydd datganoledig heb gyfeirio at San Steffan. Mae'n bwysig iawn felly bod pobl yn y gwledydd datganoledig yn pleidleisio yn yr etholiad Cyffredinol (Llywodraeth y DU) ac etholiadau Cymru / Alban / Gogledd Iwerddon.

Pleidleisio

Un ffordd o gymryd rhan mewn democratiaeth yw drwy bleidleisio dros rywun i'ch **cynrychioli chi** a'r **pethau sy'n bwysig i chi** mewn cyngorau a seneddau. Rydych yn **ethol** y bobl **rydych eisiau iddynt eich cynrychioli** yn eich **ardal leol**, cyngorau, eich gwlad a'ch senedd i drafod pethau a deddfu ar eich rhan. Mae'r holl **gynrychiolwyr etholedig** hynny'n cael eu talu gennych chi (y trethdalwr) ac yn **gweithio i chi**, ac mae'n rhaid iddynt wrando arnoch chi drwy gydol y flwyddyn, nid dim ond adeg etholiad.



Er mwyn gallu **pleidleisio** ar ddiwrnod yr etholiad **rhaid i chi fod wedi cofrestru**. Mae'n cymryd 5 munud a gallwch wneud hynny drwy ddilyn y dolenni hyn:

Cofrestru i bleidleisio - GOV.UK (www.gov.uk)

Beth fydd arnoch ei angen i bleidleisio:

Rhif Yswiriant Gwladol – gallwch ddod o hyd i hwn ar eich **slip cyflog** neu ar lythyr a anfonwyd i'ch cartref. Os ydych chi o **dan 18** oed ac os **nad oes gennych chi Rif Yswiriant Gwladol, gallwch gofrestru hebddo**. Os nad ydych chi'n gwybod beth i'w wneud, cysylltwch â'ch Swyddfa Cofrestru Etholiadol.

Pwy all bleidleisio?

Yn dibynnu ar ble rydych chi'n byw a'r math o etholiadau, gallwch bleidleisio ar wahanol oeddrannau.

Ar gyfer etholiadau lleol / datganoledig:

O fis **Mai 2021 ymlaen bydd pobl ifanc 16 i 17** oed a **gwladolion tramor cymwys** yng **Nghymru** yn cael eu **cyfle cyntaf i bleidleisio** ochr yn ochr â gweddill y boblogaeth yn etholiadau'r Senedd. Yn yr **Alban** cafodd **pobl ifanc 16 i 17** oed **bleidleisio yn ystod yr etholiadau annibyniaeth yn 2014**.

Yn **Lloegr** a **Gogledd Iwerddon**, **18 yw'r oedran** pleidleisio o hyd. Ar gyfer **etholiadau cyffredinol** y DU, yr **oedran pleidleisio yw 18** waeth ble rydych chi'n byw.

I bwy y gallaf bleidleisio?

Edrychwch isod dros bwy y gallwch bleidleisio yn dibynnu ar yr ardal.

Cymru:

- Llafur Cymru
- Ceidwadwyr Cymru
- Plaid Cymru
- Plaid Diddymu Cynulliad Cymru
- Reform UK
- Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
- Plaid Genedlaethol Cymru
- Plaid Annibynnol y DU
- Y Blaid Werdd

Y DU:

- Y Blaid Geidwadol
- Y Blaid Lafur
- Plaid Genedlaethol yr Alban
- Y Democratiaid Rhyddfrydol
- Y Blaid Unoliaethol Ddemocrataidd
- Sinn Féin
- Plaid Cymru
- Y Blaid Ddemocrataidd Gymdeithasol a Llafur
- Plaid Werdd Cymru a Lloegr
- Plaid Cyngres Gogledd Iwerddon

Gogledd Iwerddon:

- Fianna Fáil
- Sinn Féin
- Fine Gael
- Y Blaid Werdd
- Y Blaid Lafur
- Democratiaid Cymdeithasol
- Undod – Pobl Cyn Elw
- Aontú
- Hawl i Newid
- Annibynwyr Dros Newid
- Cyngres Urddas Dynol
- Gweithredu dros Weithwyr a'r Di-waith
- Plaid y Gweithwyr

Yr Alban:

- Plaid Genedlaethol yr Alban
- Ceidwadwyr yr Alban
- Llafur yr Alban
- Democratiaid Rhyddfrydol yr Alban
- Gwyrddion yr Alban
- Reform UK
- Grŵp Maniffesto Orkney
- Plaid Annibyniaeth i'r Alban
- Plaid Rubbish
- Scotia Future
- Plaid Rhyddid yr Alban
- Plaid Gymunedol Gorllewin Sir Dunbarton

Mae sawl plaid hefyd sydd â chynrychiolwyr ar lefel llywodraeth leol, sy'n codi ymwybyddiaeth o amrywiaeth o **faterion lleol neu ymylol**. Mae llawer o'r grwpiau hyn yn cael eu hystyried yn aelodau annibynnol neu **mae ganddynt enw ar gyfer eu plaid eu hunain**.

Mae pa bynnag **blaid wleidyddol sy'n ennill** etholiad mewn Llywodraeth wedyn ac **yn cael ffurfio Cabinet**. Mae pa bynnag blaid (neu bleidiau) a ddaw'n ail yn dod yn **wrthblaid**. Os **nad oes enillydd clir efallai y bydd Llywodraeth Glymblaid**.

Geiriau allweddol:

Meiri:

Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn dewis y model 'arweinydd a chabinet' lle dewisir arweinydd y cyngor gan y cynghorwyr, ond mewn rhai ardaloedd mae model 'maer a chabinet' wedi'i fabwysiadu, lle sefydlir maer a etholir yn uniongyrchol i gymryd lle arweinydd y cyngor. Mae gan lawer o awdurdodau sydd gyda neu heb faer etholedig faer seremonïol heb bŵer gweithredol ac mae'r ddwy rôl – maer etholedig / arweinydd cyngor enwebedig a maer seremonïol – yn bodoli ar yr un pryd.

Aelodau seneddol:

(ASau) Etholir i bob Etholaeth. Etholir i'ch cynrychioli chi ar lefel Llywodraeth y DU (San Steffan) Cynrychiolir pawb yn y DU gan AS yn Senedd y DU yn San Steffan. Mae 650 o ASau yn cynrychioli 650 o Etholaethau.

Aelodau o lywodraethau datganoledig

(AS, MSP, MLA) Etholir i bob Etholaeth a Rhanbarth. Etholir i'ch cynrychioli chi ym ardal y Llywodraeth ddatganoledig os ydych chi'n byw yng Nghymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon.

Senedd:

yn Saesneg daw o'r gair Ffrangeg parler, sy'n cyfieithu fel siarad.

Mae'r ystyr mwyaf cyffredin yn cyfeirio at gorff deddfwriaethol (deddfu) gwlad. Dyma'r grŵp o bobl sy'n cael eu hethol i wneud a newid cyfreithiau gwlad.

Deddfwrfa:

sefydliad sydd â'r pŵer i wneud neu newid cyfreithiau.

Llywodraeth:

y grŵp o bobl sy'n swyddogol gyfrifol am lywodraethu (rhedeg) y wlad neu ran wleidyddol o'r wlad.



12 Ffordd i Bobl Ifanc Gymryd Rhan mewn Gwleidyddiaeth

Ysgrifennwyd y canllaw hwn gan Emily Beever, Uwch Swyddog
Datblygu yn YouthLink Scotland



Mae gwleidyddiaeth yn effeithio ar bopeth o'n cwmpas – faint rydyn ni'n cael ein talu, sut mae ein gofod gwyrdd yn cael ei gynnal a'i gadw, beth rydyn ni'n ei ddysgu yn yr ysgol a'r coleg.




Ond **sut mae gennym ni [lais](#) yn hynny?**

Mae gan bob person ifanc yr hawl i leisio ei farn ar faterion sy'n effeithio arnynt ac mae sawl ffordd i bobl ifanc gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth, hyd yn oed os nad ydych chi'n ddigon hen i bleidleisio eto.

1. Pleidleisio

Mae pleidleisio'n haeddu'r safle cyntaf ar y rhestr hon – dyma'r **brif ffordd** y mae democratiaeth yn gweithio a **llais y bobl yn cael ei glywed**. Nid yw pleidleisio wedi'i gyfyngu i etholiadau ledled y DU chwaith. Cadwch olwg am etholiadau cyngor lleol, etholiadau seneddol os ydych chi'n byw yng Nghymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon, neu etholiadau **maer lleol**. Gallwch **bleidleisio yn 16 oed yng Nghymru a'r Alban**, a **18 oed yn Lloegr a Gogledd Iwerddon**.



2. C YMRYD RHAN YN EICH SENEDD IEUENCTID


Erbyn hyn mae **Seneddau** neu **Gynulladau Ieuenctid** ym **mhob gwlad** yn y **DU**. Bydd cymryd rhan yn eich senedd ieuenctid yn rhoi cyfle i chi **gynrychioli pobl ifanc** eraill a helpu eu materion i gael eu clywed.

[Senedd Ieuenctid y DU](#)
[Cynulliad Ieuenctid Gogledd Iwerddon](#)
[Senedd Ieuenctid yr Alban](#)
[Senedd Ieuenctid Cymru](#)

3. DYSGU MWY AM SUT MAE'R CYFAN YN GWEITHIO

Gall gwleidyddiaeth ymddangos yn ddryslyd iawn os nad ydych chi'n wybodus am y maes. Ond **peidiwch ag ofni** – mae ffyrdd i gael yr wybodaeth hanfodol heb gael eich llethu. Mae **Senedd y DU yn cynnal sesiynau ar-lein i gefnogi pobl i leisio'u barn a chryfhau cysylltiadau cymunedol**:

Gallwch ddod o hyd i fwy **yma**.



4. CYSYLLTU Â'CH CYNRYCHOLWYR LLEOL

Os oes rhywbeth yn digwydd **nad ydych yn cytuno ag** ef neu **rydych eisiau gweithredu yn ei gylch**, gallwch **gysylltu â'ch cynrychiolwyr etholedig yn uniongyrchol**. Mae gan bob un ohonynt gyfeiriadau e-bost ac mae llawer ohonynt ar y cyfryngau cymdeithasol hefyd. Efallai y byddwch eisiau trafod cwestiwn neu fater gyda'ch cynrychiolwyr wyneb yn wyneb, a gallwch wneud hynny drwy fynd i **gymhorthfa**. Mae cymhorthfa wleidyddol neu gymhorthfa etholaethol, yng ngwleidyddiaeth Prydain ac Iwerddon, yn gyfres o gyfarfodydd un i un y gall Aelod Seneddol (AS) neu ddeiliad swydd wleidyddol arall eu cynnal gyda'i etholwyr. Dyma'r **ffordd orau** yn aml o **godï mater gyda hwy'n uniongyrchol!**



5. YMATEB I YMGYNGHORIADAU

Mae'r **llywodraeth**, **pwyllograu seneddol** ac **asiantaethau'r llywodraeth** yn **cynnal ymgynghoriadau yn aml ar wahanol faterion maent yn eu harchwilio**, er enghraifft, cyn i gyfraith gael ei phasio. Fel arfer maent yn rhagweld **ymateb ysgrifenedig**, weithiau drwy ffurf ddigidol, ond yn gynyddol byddant yn derbyn **ymatebion fideo**. Nid oes angen i chi ateb pob cwestiwn maen nhw'n ei ofyn – dim ond **rhannu sut mae'r mater yn effeithio arnoch chi** a beth hoffech chi ei weld yn digwydd.

[Ymgynghoriadau Llywodraeth yr Alban](#)
[Ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru](#)
[Ymgynghoriadau Llywodraeth GI](#)
[Ymgynghoriadau Llywodraeth y DU](#)

6. SEFYDLU NEU LOFNODI DEISEB

Mae deiseb yn ddogfen o **syniadau neu gamau gweithredu y cytunwyd arnynt i'w newid i Gyfreithiau ar lefel genedlaethol**. Gallwch nawr wneud hyn yn ddigidol drwy wefan y llywodraeth. Mae gan bob senedd genedlaethol (ac eithrio Cynulliad Gogledd Iwerddon) ei swyddogaeth deisebau ei hun lle gallwch sefydlu a llofnodi deisebau. Os bydd deiseb yn cael **mwyafrif penodol o lofnodion**, mae'n **ofynnol i'r senedd weithredu yn ei chylch**, fel cynnal dadl. Mae gwefannau deisebau eraill hefyd, fel Change.org, ond nid oes raid i wleidyddion gydnabod deisebau ar y safleoedd hyn. Yng Nghymru, mae arnoch angen 50 o lofnodion er mwyn i'r Senedd drafod pwnc y ddeiseb. Yn Lloegr mae arnoch angen 100,000 o lofnodion er mwyn i'r Senedd drafod y pwnc. Yn yr Alban dim ond 1 llofnod sydd ei angen arnoch er mwyn i'r pwyllogor deisebau cyhoeddus drafod pwnc y ddeiseb.



[Deisebau Llywodraeth yr Alban](#)
[Deisebau Llywodraeth y DU](#)
[Deisebau Senedd Cymru](#)

7. YMUNO Â GRŴP NEU SEFYDLIAD YMGYRCHU

Mae llond gwlad o sefydliadau cenedlaethol neu leol sydd eisoes yn gweithio ar fater rydych chi'n poeni amdano. Gallech ymuno â nhw fel [aelod](#), [gwirfoddolwr](#), neu hyd yn oed gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau fel [ymddiriedolwr ifanc](#).

Yr Ymddiriedolaethau Natur
Cyfeillion y Ddaear
Yr RSPB
WWF



8. YMUNO Â PHLAID WLEIDYDDOL

Mae hon yn [ffordd wych o barhau i ymwneud â phlaid wleidyddol sy'n adlewyrchu eich barn](#). Drwy fod yn aelod o blaid wleidyddol, gallwch hefyd chwarae eich [rhan wrth benderfynu ar flaenoriaethau'r blaid](#) a [phwy yw'r ymgeiswyr lleol](#).



9. CYNNAL DIGWYDDIAD GYDA GWLEIDYDDION LLEOL


Eisiau gwneud yn siŵr bod pobl ifanc eraill yn gwybod beth sy'n digwydd yn eich ardal chi? Beth am gynnal digwyddiad gyda gwleidyddion lleol?! Gallai fod yn fformat [holi ac ateb](#) syml am [fater penodol](#), cynulliad neu hyd yn oed ddigwyddiad hystings yn y cyfnod cyn etholiad.

Grŵp o bobl yw [cynulliad](#) sy'n dod at ei gilydd i drafod mater/materion, a dod i [gasgliad](#) am yr hyn ddylai ddigwydd yn eu barn hwy. Mae cynulliadau'n rhoi amser a chyfle i aelodau'r cyhoedd ddysgu am bwnc a'i drafod, cyn dod i gasgliadau. Weithiau gwahoddir gwleidyddion i gynulliadau i glywed am anghenion y cyhoedd. I gael rhagor o wybodaeth am drefnu hystings, edrychwch ar ein canllaw arall yn y gyfres hon.

Mae hystings yn gyfarfod lle mae ymgeiswyr etholiadol neu bleidiau'n trafod polisiau ac yn ateb cwestiynau gan y gynulleidfa. Mae hystings yn rhoi cyfle i bleidleiswyr glywed barn ymgeiswyr neu bleidiau. Pan wahoddir pob ymgeisydd neu barti sy'n sefyll, [nid yw hystings yn hyrwyddo unrhyw ymgeisydd neu blaid](#) benodol oherwydd bod pob un ohonynt yn cael cyfle i siarad a chael eu holi.

10. RHANNU EICH NEGES

Rhannwch eich neges gydag eraill drwy [rannu'r hyn rydych chi wedi'i ddysgu](#) neu ei brofi. Mae'r [cyfryngau cymdeithasol](#) yn ffordd wych o [gysylltu ag eraill](#) a gallwch fod yn arloesol iawn yn y ffordd rydych chi'n gwneud hyn. Mae Youth Cymru wedi dechrau [podlediad](#) i addysgu ac ymgysylltu â phobl ifanc ar wahanol bynciau.




11. PROTESTIO

Mae'r [streiciau ysgolion am yr hinsawdd](#) yn esiampl berffaith o ba mor [bwerus all gweithredu ar y cyd](#) fod. Gellir protestio mewn sawl ffordd – gall ychydig iawn o bobl wneud byd o wahaniaeth.

12. SEFYLL AM SWYDD WLEIDYDDOL

Mae hwn yn ymrwymiad mawr ond os ydych chi'n [18](#) oed gallwch [sefyll am swydd wleidyddol](#). I gael rhagor o wybodaeth am sefyll mewn [etholiad cyngor plwyf](#), edrychwch ar ein canllaw arall yn y gyfres hon.



**Aelodau [ieuengaf](#) y Seneddau ledled y DU
adeg eu hetholiad:**

21

Nghynulliad Gogledd Iwerddon

21

Senedd yr Alban

**‘Mae gan bob person
ifanc yr hawl i leisio
ei farn.’**

23

Senedd Cymru

23

Senedd y DU

Dolenni Defnyddiol

Croeso i'ch Pleidlais – Y Comisiwn Etholiadol
Cymorthfeydd Digidol Cymru – Y Prosiect
Gwleidyddiaeth Gallwch gofrestru yma
Y Bocs Democratiaeth – lle mae croeso i bob
aelod o'r gymuned gymryd rhan
Rhwydwaith Hinsawdd Myfyrwyr y DU
Youth Politics

Llywodraeth Leol

cymryd rhan drwy gael eich ethol!

Ysgrifennwyd y canllaw yma gan Rachel Coxcoon, aelod o Grŵp Llywio Our Bright Future. Mae Rachel yn wleidydd lleol ac mae'n gweithio ar Gymorth Argyfwng Hinsawdd ar gyfer cynghorau lleol




FELLY RYDYCH CHI EISIAU YMWNEUD Â LLYWODRAETH LEOL?


Ac fe ddylech chi.

Mae gan lywodraeth leol enw drwg am ddiffyg amrywiaeth.


Dangosodd adroddiad y Gymdeithas Llywodraeth Leol yn Lloegr yn 2018 y canlynol:



63% GWRYW




45% WEDI YMDDEOL



43% 65+

a'r cyfartaledd oedd 59



96% GWYN

Ar lefel cyngor plwyf, roedd y diffyg amrywiaeth yn fwy fyth. [Cyfartaledd oedran](#) cynghorydd plwyf neu dref oedd **61**, a dim ond **1%** oedd cyfran y cynghorwyr rhwng **18 a 25 oed**. I gymharu, mae **10.4% o'r boblogaeth genedlaethol** yn y grŵp oedran hwn, felly mae [pobl ifanc yn cael eu tangynrychioli](#) ar lefel cyngor plwyf a thref o **ffactor o 10!**

Pam mae cyn lleied o gynghorwyr ifanc?

Ar y cyfan, nid yw llawer o bobl ifanc yn ymwybodol bod y cyfleoedd hyn yn bodoli ar eu cyfer. Nid yw'r rhan fwyaf o bobl ifanc yn sylweddoli bod ganddynt [hawl gyfreithiol i gynnig eu hunain i weithredu mewn llywodraeth leol yn 18 oed](#), ac yn aml, erbyn iddynt fod yn eu 20'au hwyr, mae amser yn brin. Mae pobl yn dechrau gweithio oriau hirach, yn cymudo neu wedi dechrau teulu efallai, sy'n golygu llai o amser i'w roi i wasanaeth cyhoeddus. Mae pobl ifanc yn aml yn gwneud pethau dros dro – yn y brifysgol rywfaint o'r amser, neu drwy'r amser, neu'n symud swyddi i wahanol lefydd. [Canlyniad hyn yw bod llywodraeth leol yn llawn pobl wedi ymddeol sydd wedi setlo mewn ardal leol.](#)



Pam mae'n bwysig cael mwy o gynghorwyr ifanc?

Pan nad ydym yn ddefnyddwyr uniongyrchol gwasanaeth, sut gallwn ni gyflwyno sylwadau'n deg arno? I [gynghorwyr yn eu 60au](#), gall eu profiad o dai fforddiadwy, ysgolion, meithrinfeydd a darpariaeth chwarae, er enghraifft, fod wedi dyddio. Mae'n [llai tebygol o fod o bwys uniongyrchol](#) iddynt, ochr yn ochr ag agweddau eraill ar eu bywyd bob dydd. Mae hyn yn golygu y bydd y [safbwyntiau hynny'n cael llai o sylw](#) mewn cyfarfodydd cyngor na'r problemau sy'n effeithio ar bobl hŷn, fel darparu llefydd mewn cartrefi gofal, siopau hygyrch ac ati.

Maent hefyd yn [llai tebygol yn gyffredinol o ymwneud](#) â materion penodol mae pobl ifanc yn teimlo'n gryfach yn eu cylch neu'n gysylltiedig â hwy, fel argyfwng yr hinsawdd. Yn wir, maent yn fwy tebygol o fod yn rhan o'r system sy'n cyfrannu at barhad rhai o'r problemau. Efallai bod hyn yn gyffredinoli dybryd, ond os ydych chi wedi treulio eich bywyd eisiau bod yn berchen ar Range Rover, a bellach yn 60 oed ac yn berchennog Range Rover, dydych chi ddim yn debygol o fod yn hybu canol trefi heb geir a chynnydd aruthrol mewn seilwaith beicio a cherdded!



Beth mae llywodraeth leol yn ei wneud felly?

Bu sawl ymgais i ddiwygio llywodraeth leol neu ei gwneud yn fwy effeithiol yn ystod y 200 mlynedd diwethaf, ac mae'n ymddangos bod pob un wedi gadael y dasg ar ei hanner. Creodd datganoli wahaniaethau ym mhedair gwlad y DU, ond i grynhoi, Dim ond un haen o lywodraeth leol sydd yng Ngogledd Iwerddon, ond mae gan rai rhannau o Loegr dair haen.



Wedi drysu?

Beth am ddadansoddi, gan ddechrau gyda [Lloegr](#)...

Mae gan y rhan fwyaf o ardaloedd gwledig Lloegr yr hyn a elwir yn strwythur 'tair haen' o lywodraeth.

Yr uned fwyaf mewn ardal tair haen yw cyngor sir, er enghraifft, Sir Caerloyw. Yn y sir honno bydd pedwar i chwech o 'gyngorau rhanbarth'. Ac yn ardal pob cyngor rhanbarth, bydd nifer fawr o 'blwyfi sifil'. Yn llygaid y gyfraith, yr enw ar bob plwyf sifil yw 'plwyfi', ond os ydych chi'n byw mewn pentref mawr iawn neu dref farchnad fechan, bydd y cyngor plwyf lleol yn cael ei alw'n 'Gyngor Tref'.

Wedi drysu o hyd?



Peidiwch â phoeni, mae hynny'n wir am [bawb](#) bron! Dyma fwy o wybodaeth...

Tair haen llywodraeth leol


Cyngor Sir

Yn gyfrifol am — addysg, gwasanaethau cymdeithasol (gan gynnwys cartrefi hen bobl), llyfrgelloedd, trafnidiaeth gyhoeddus, y rhan fwyaf o briffyrdd, safonau masnach, gwaredu gwastraff.



Cyngorau Rhanbarth (4 i 7 ym mhob sir)

Yn gyfrifol am - casglu gwastraff, tai, y system gynllunio (h.y. beth sy'n cael ei adeiladu ac ymhle, a benderfynir drwy'r 'Cynllun Lleol'), hamdden, rhai ffyrdd lleol, iechyd yr amgylchedd (e.e. llygredd sŵn, taflu sbwriel yn anghyfreithlon), casglu'r dreth gyngor, casglu ardrethi busnes, rhai taliadau budd-daliadau.



ENWI — weithiau bydd enw llawn y cyngor rhanbarth yn cynnwys y gair 'Rhanbarth' ond weithiau bydd yn cael ei alw'n 'Gyngor Bwrdeistref' neu hyd yn oed 'Gyngor Dinas' (e.e. Cyngor Bwrdeistref Waverly yn sir Surrey, neu Gyngor Dinas Caerhirfryn yn Sir Caerhirfryn).



Plwyfi Sifil (50 i 200 ym mhob rhanbarth)

Yn gyfrifol am - cyfleusterau lleol fel rhandiroedd, mynwentydd, mannau gwyrdd, parciau chwarae, llochesi bysiau, seddau cyhoeddus, toiledau cyhoeddus, neuaddau pentref. Weithiau hefyd mae rhai llwybrau troed, goleuadau stryd ac ardaloedd mawr o drefi neu bentrefi yn perthyn i'r cyngor plwyf, e.e. y farchnad ei hun. Hefyd gall plwyfi sifil wneud '[Cynllun Cymdogaeth](#)', sydd fel '[Cynllun Lleol](#)' ar raddfa fechan.



[Does dim gofyniad cyfreithiol i ran o Loegr gael cyngor plwyf](#). Dim ond '[Cyfarfod Plwyf](#)' fydd gan rai pentrefi a phentrefannau, sy'n cyfarfod [unwaith y flwyddyn](#). Nid oes gan y rhan fwyaf o'r ardaloedd trefol yn Lloegr blwyfi o gwbl.



ENWI — peidiwch â drysu rhwng '[plwyf sifil](#)' a '[phlwyf eglwys](#)'. Nid yw'r rhain yr un peth. Sefydlwyd y cyngorau plwyf sy'n bodoli heddiw gan '[Ddeddf Cyngorau Plwyf 1894](#)', a roddod y cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau yn nwylo pobl leol etholedig yn hytrach na'r eglwysi. Mae rhai plwyfi sifil yn cael eu galw'n '[Gyngorau Tref](#)'. Mae'r rhain yn tueddu i fod yn rhai mwy ond mae eu pwerau yn y gyfraith yr un fath â'r plwyfi lleiaf un. Mae rhai plwyfi sifil yn cael eu galw'n Gyngorau Dinas hyd yn oed! Dyma deitl a ddyfarnwyd ymhell yn ôl mewn hanes gan '[Siarter Brenhinol](#)'. Eto, nid yw'n gwneud llawer o wahaniaeth i'w pwerau.

mewn rhai rhannau o Loegr, a Chymru, trefnir llywodraeth leol ar sail system 'dwy haen'. Mae'r cyngorau rhanbarth a'r cyngorau sir yn cyfuno i wneud 'cyngorau unedol'.

Cyngorau Unedol

Yn gyfrifol am – **Yr holl wasanaethau** a fyddai'n cael eu darparu gan **Gyngor Sir** mewn system tair haen, **a'r holl wasanaethau** a fyddai'n cael eu darparu gan y **cyngorau rhanbarth** hefyd. **Nid yw'r cyngorau rhanbarth yn bodoli mewn ardal unedol.**

Felly mae cyngorau unedol yn darparu: addysg, gwasanaethau cymdeithasol (gan gynnwys cartrefi hen bobl), llyfrgelloedd, trafnidiaeth gyhoeddus, y rhan fwyaf o briffyrdd, safonau masnach, gwaredu gwastraff, **yn ogystal â chasglu gwastraff, tai, y system gynllunio** (h.y. beth sy'n cael ei adeiladu ac ymhle, a benderfynir drwy'r 'Cynllun Lleol'), hamdden, rhai ffyrdd lleol, iechyd yr amgylchedd (e.e. llygredd sŵn, taflu sbwriel yn anghyfreithlon), casglu'r dreth gyngor, casglu ardrethi busnes, rhai taliadau budd-daliadau.

ENWI – mae cyngorau unedol yn tueddu i fod ag enw sy'n ymwneud â'r hen gyngor sir maent wedi cymryd ei le e.e. 'Cyngor Sir Wilt', 'Cyngor Cernyw'. Weithiau, pan mae **cyngor mawr yn newid i fod yn gyngor 'unedol'**, mae'r **ardal drefol fawr yn dod yn un cyngor unedol**, ac mae'r **ardal wledig sy'n weddill yn uned ar wahân**. Dyma ddigwyddodd yn Sir Wilt (daeth Swindon yn gyngor ar wahân), a Dorset (lle daeth Bournemouth, Christchurch a Poole yn un awdurdod unedol trefol a daeth yr ardal wledig yn 'Gyngor Dorset').

Yng **ngogledd Lloegr**, mae **cyngorau unedol** yn tueddu i gael eu galw'n '**Gyngorau Bwrdeistref Metropolitan**'. Mae llawer o gyngorau unedol y de yn iau, wedi'u ffurfio ers canol y 1990'au. Ffurfiwyd y rhan fwyaf o'r 'cyngorau Metropolitan' gogleddol yn y 1970'au.

Mae Llundain yn achos arbennig. Mae **26 cyngor** a'r enw arnynt yw '**Bwrdeistrefi Llundain**'. Mae ganddynt bwerau unedol ond mae corff mwy o'r enw Awdurdod Llundain Fwyaf sy'n mabwysiadu rhai swyddogaethau cynllunio a thrafnidiaeth strategol, ac mae uwch ben y rhain i gyd. **Does dim un plwyf o gwbl bron yn Llundain.**




Plwyfi Sifil (cymaint â 500 mewn cyngorau unedol gwledig, a chyn lleied â dim mewn ardal drefol fawr).

Yn gyfrifol am - cyfleusterau lleol fel rhandiroedd, mynwentydd, mannau gwyrdd, parciau chwarae, llochesi bysiau, seddau cyhoeddus, toiledau cyhoeddus, neuaddau pentref. Weithiau hefyd mae rhai llwybrau troed, goleuadau stryd ac ardaloedd mawr o drefi neu bentrefi yn perthyn i'r cyngor plwyf, e.e. y farchnad ei hun. Hefyd gall plwyfi sifil wneud '**Cynllun Cymdogaeth**', sydd fel '**Cynllun Lleol**' ar raddfa fechan.



Mae [Gogledd Iwerddon](#) yn [wahanol i weddill y DU](#). Mae [11 'Cyngor Rhanbarth'](#). Fel gyda Chynghorau Rhanbarth yn ardaloedd tair haen Lloegr, mae gan Gynghorau Rhanbarth Gogledd Iwerddon gyfrifoldeb am gynllunio, gwasanaethau gwastraff ac ailgylchu, gwasanaethau hamdden a chymunedol, rheoli adeiladu a datblygiad economaidd a diwylliannol lleol. Fodd bynnag, does [dim lefel Cyngor Sir uwch eu pen](#). Mae'r holl swyddogaethau priffyrdd, adeiladu tai, addysg ac iechyd a gofal cymdeithasol yn cael sylw ar y lefel genedlaethol, a hefyd casglu ardrethi busnes. Nid oes unrhyw beth yn cyfateb i blwyf sifil, na chynghorau cymuned, o gwbl yng Ngogledd Iwerddon, ac felly mae'r lefel leol iawn hon o lywodraeth yn gwbl absennol.



Mae'r [Alban](#) yn debyg i Gymru ar y lefel uchaf. Mae [32 o brif awdurdodau lleol](#), ac mae gan y rhain i gyd bŵer a statws [Cyngor Unedol](#). Hefyd ceir [Cynghorau Cymuned](#) yn yr Alban, a [gymerodd le Cynghorau Plwyf yn 1975](#). Fodd bynnag, y [prif wahaniaethau](#) yw nad oes gan y [cynghorau cymuned hyn yn yr Alban bwerau cyfreithiol eu hunain](#). Rhaid i gynghorau uwch ymgynghori â hwy ar faterion penodol, ond yn y rhan fwyaf o gyd-destunau, mae ganddynt lai o ddylanwad o gymharu â'r cynghorau cyfatebol yng [Nghymru a Lloegr](#).

Yng [Nghymru](#), mae'r wlad gyfan yn dilyn y model dwy haen a ddangosir ar dudalennau 8 a 9. Mae [Cymru gyfan wedi'i rhannu yn 22 cyngor](#) sydd naill ai â theitl '[Cyngor Sir](#)' neu '[Gyngor Bwrdeistref](#)'. Mae eu pwerau yr un fath â rhai cynghorau Unedol Lloegr, a welir yn niagram 2. Hefyd mae gan Gymru [gyngor sy'n cyfateb i gyngor plwyf](#), gyda'r un pwerau, ond yng Nghymru yr enw arno yw '[Cyngor Cymuned](#)'. Fel yn Lloegr, nid ydynt i'w gweld mewn ardaloedd trefol bob amser.



Beth ddylwn ei wneud os wyf eisiau sefyll mewn etholiad?


Mae **etholiadau** mewn cynghorau sir, cynghorau rhanbarth a chynghorau plwyf ar **6 Mai 2021**. Gallwch weld a oes etholiad yn eich cyngor lleol chi [yma](#).

Mae'n debygol, ar gyfer etholiadau rhanbarth, sir ac unedol, y byddwch yn ymuno â'r ras ar gyfer etholiadau eleni yn hwyr iawn. Bydd llawer o **bleidiau lleol** wedi dechrau ymgyrchu fisoedd yn ôl ac wedi dewis eu hymgeiswyr eisoes fwy na thebyg. Gallech wrth gwrs sefyll fel **ymgeisydd annibynnol**, ond gyda dim ond 11 wythnos i fynd yn y cylch etholiadol, byddai llawer o waith i'w wneud i dynnu sylw pobl y ward neu'r sir atoch chi. Hefyd rhaid i chi gael **asiant etholiad**, i helpu i gadw trac o'r llenyddiaeth rydych yn ei chreu ac unrhyw arian rydych yn ei wario (hyd yn oed os mai dim ond £10 ar gyfer pecyn o bapur yw hynny). Gallai hyn fod yn llawer i'w wneud ar gyfer eich ymgais gyntaf mewn gwleidyddiaeth leol.

Fodd bynnag, mae **cynghorau Plwyf a Thref** (sef **Cynghorau Cymuned** yng Nghymru) yn gwbl wahanol. Yn aml maent yn cael eu galw'n 'haen gyntaf' llywodraeth leol, gan eu bod **agosaf at y cymunedau maent yn eu gwasanaethu**. I berson ifanc yng Nghymru neu Loegr sydd â diddordeb mewn dyfodol mwy cynaliadwy, mae **cynghorau plwyf a thref yn lle rhagorol i ddechrau mewn gwleidyddiaeth leol a gwneud penderfyniadau**, am sawl rheswm.

- Maent yn tueddu i **reoli cryn dipyn ar y seilwaith gwyrdd lleol** (parciau, ymylon ffyrdd, mynwentydd ac ati). Mae'r rhain yn llefydd rhagorol i roi cynnig ar wahanol gyfundrefnau rheoli, fel plannu blodau gwyllt, gadael torri glaswellt tan ar ôl hadu, perllannau cymunedol, a phlannu coed.
- Maent yn tueddu i fod â **'brand' lleol da**, gyda gwefan a chylchlythyr yn aml, ond nid ydynt yn defnyddio eu hasedau yn y ffordd orau bob amser. Mae'r rhan fwyaf o bobl mewn cymuned yn gwybod am y cyngor tref neu blwyf, ond heb ddeall yn iawn beth mae'n wneud. Gallwch fanteisio ar y lefel hon o gydnabyddiaeth drwy fynd ar eich cyngor lleol a datblygu prosiectau sy'n defnyddio eich cryfderau; fel cyfathrebu ffyrdd o weithredu am yr argyfwng hinsawdd. **Fel person ifanc, bydd deall cyfryngau cymdeithasol yn chwa o awyr iach fwy na thebyg, ac yn rhywbeth yr hoffai'r cyngor gael help ag ef.**
- Mae gan Gyngorau Plwyf yn Lloegr a Chynghorau Cymuned yng Nghymru **rai pwerau cynllunio – rhaid i gynghorau rhanbarth ac unedol ymgynghori â hwy ar bob cais cynllunio ac ar y Cynllun Lleol**. Gallwch **helpu i siapio'r ymatebion hyn** drwy ofyn am fwy o nodweddion cynaliadwyedd mewn datblygiad newydd. Gallech hefyd weithio ar bethau fel **'canllawiau dylunio pentrefi'**, sy'n dangos i ddatblygwyr **pa fath o bethau sydd eu hangen yn lleol**, a hyd yn oed helpu i ysgrifennu **Cynllun Cymdogaeth**, a allai roi mwy o fanylion am gynllunio cynaliadwy ar gyfer eich ardal.

- Hefyd mae gan Gyngorau Plwyf Lloegr a Chynghorau Cymuned Cymru **'bwerau codi praesept'**. Mae hyn yn golygu bod **rhan fechan o daliad y Dreth Gyngor** o bob tŷ yn eich cymuned yn mynd yn ôl i'r **cyngor Plwyf/Cymuned**. Mae llawer o blwyfi'n gwneud popeth a allant i osgoi codi'r praesept, ond mae rhesymau da dros wneud hynny weithiau. Efallai y gallwch gynnal ymgynghoriad lleol ar godi praesept i glustnodi arian ar gyfer prosiectau amgylcheddol lleol, fel teithio llesol, plannu coed ac ati.
- Mae cynghorau lleol yn tueddu i fod yn **llai agored yn 'wleidyddol'** na chynghorau rhanbarth, unedol a sir. Os ydych chi eisiau sefyll ar gyfer eich **cyngor plwyf**, nid yw'n anarferol bod yn **ymgeisydd annibynnol**. **Does dim rhaid i chi roi 'bathodyn' i chi'ch hun** fel 'Gwyrdd', 'Llafur' ac ati, na neidio drwy gylchoedd i ymuno â phlaidd wleidyddol na dod yn ymgeisydd cymeradwy ar eu rhan. Cewch sefyll fel chi'ch hun a'r hyn rydych yn credu ynddo. Mewn rhai cynghorau tref mwy, mae grwpiau gwleidyddol, ond hyd yn oed yno, nid yw'n anarferol i bobl sefyll fel ymgeiswyr annibynnol hefyd.
- Yn bwysicach na dim, ar hyn o bryd mae cynghorau plwyf a thref yn dioddef yn enfawr o 'ddiffyg democrataidd'. Yn etholiadau mis **Mai 2015, dim ond 20% o blwyfi Lloegr** welodd gystadlu am eu llefydd gwag! *Er enghraifft, os oes gan gyngor wyth sedd ar gyfer cynghorwyr a llai nag wyth o bobl yn rhoi eu henw ar gyfer enwebiad, maent wedi'u hethol, heb gystadleuaeth. Mewn sawl achos, mae cynghorwyr yn camu i lawr neu'n ymddeol rhwng etholiadau a does neb wedi dod i lenwi eu lle.* Felly mae gan lawer o gynghorau lleol sawl lle gwag drwy'r amser. Mae eich siawns o gael eich ethol ar y lefel hon yn llawer uwch felly na mewn rhanbarth neu sir.



GAIR O RYBUDD

Er bod llawer o gynghorwyr plwyf a thref yn bobl hyfryd, sy'n digwydd bod ym mhen uchaf y sbectrwm oedran ac a fyddai wrth eu bodd yn cael cynghorwyr tref iau yn gweithio gyda nhw, mae'n siŵr y bydd rhai cynghorwyr presennol sy'n gwrthwynebu eich mewnbwn neu'r newid rydych eisiau ei gyflwyno. Efallai y byddant yn ceisio eich drysu gyda'r 'Rheolau Sefydlog', neu'n ceisio eich blino gyda gweithdrefnau diflas a gwneud i chi deimlo nad oes gennych brofiad bywyd i wneud y gwaith yma. Ond **mae gan bobl ifanc yr un hawl â phawb arall i gynrychioli eu cymunedau yn y capasiti hwn**. Peidiwch â bod ofn cyflwyno eich enw neu ofn cwestiynau. Mae eich profiadau fel person ifanc sy'n byw yn y gymuned yn rhoi persbectif i chi i gyfrannu a gwneud gwahaniaeth positif.

Os ydych chi'n poeni am wybod beth yn union mae cynghorydd plwyf yn ei wneud, a pha sgiliau sydd arnoch eu hangen, mae **Cymdeithas Genedlaethol y Cynghorau Lleol** (NALC) yn darparu cefnogaeth, mentora a hyfforddiant i gynghorwyr newydd, a byddwch yn gallu ymuno â hi os cewch eich ethol.

lawn, rydych chi wedi fy narbwyllo i – rydw i'n mynd i sefyll yn etholiadau fy nghyngor plwyf.

Beth ddylwn i ei wneud nesaf?

I sefyll yn yr etholiad, rhaid i chi wneud y canlynol:

Bod yn **18 oed** ar ddiwrnod cyflwyno'r papurau enwebu A

1. bod ar y **Gofrestr o Etholwyr** (y 'gofrestr etholiadol') ar gyfer y plwyf neu'r ward rydych yn sefyll drosti, neu;
2. wedi bod yn **byw yn y plwyf lle rydych yn sefyll** (neu o fewn 4.8 cilometr iddo) am y 12 mis llawn yn arwain at yr enwebiad, neu;
3. wedi bod yn **gweithio mewn cyfeiriad yn y plwyf** am y 12 mis llawn yn arwain at yr enwebiad, neu;
4. wedi bod yn **rhentu eiddo yn y plwyf** am y 12 mis llawn yn arwain at yr enwebiad.

Mae'n bosib i rywun gymhwyso bedair gwaith, er enghraifft, os yw ar y gofrestr etholiadol, yn gweithio yn y plwyf, ac yn rhentu eiddo yno ac wedi byw ynddo ers 12 mis. Ond peidiwch â phoeni, dim ond **ticio un o'r uchod** fydd ei angen.

I gyflwyno eich hun ar gyfer etholiad, gallwch lawrlwytho'r papurau [yma](#).

Mae tri phapur yn rhan o'r ffurflen enwebu:

1. y ffurflen enwebu
2. ffurflen cyfeiriad cartref
3. eich caniatâd ar gyfer yr enwebiad

Hefyd rhaid i'r ffurflen enwebu fod ag enw a llofnod un person a fydd yn gweithredu fel eich 'cynigydd' ac un person fel eich 'eilydd'. **Ni ddylai** eich cynigydd a'ch eilydd fod yn perthyn i chi, **rhaid** iddynt fod ar y gofrestr etholiadol ar gyfer y ward/plwyf lle rydych yn sefyll etholiad a **rhaid** iddynt fod mewn oedran pleidleisio. Mae manylion llawn am beth fydd angen i chi ei wneud ar gael [yma](#).

Mae hyn i gyd yn swnio braidd yn gymhleth – ble mae cael mwy o wybodaeth a gwneud yn siŵr fy mod i'n gwneud pethau'n iawn?

Mae pob cyngor rhanbarth a chyngor unedol yn cynnal etholiadau yn eu hardal. Mae'n ofynnol iddynt gael person sy'n gweithio i'r cyngor gyda theitl swydd **'Swyddog Canlyniadau'**. Mae'r person hwn yn goruchwyllo'r holl etholiadau yn yr ardal honno. Gallwch gysylltu â'ch cyngor a **gofyn am siarad â'r Swyddog Canlyniadau**, neu aelod o'i dîm, os oes arnoch chi angen help gyda llenwi'r ffurflenni enwebu ac ati. Bydd rhaid i'ch Swyddog Canlyniadau gyhoeddi **'Hysbysiad o Etholiad'** dim hwyrach na **25 diwrnod gwaith cyn y bleidlais**. Mae hwn yn rhoi gwybod i'r gymuned y bydd etholiad a phryd gall pobl ddechrau cyflwyno papurau enwebu. Wedyn gallwch gyflwyno papurau enwebu, a byddwch yn gallu gwneud hynny **tan 4pm ar yr 19eg diwrnod gwaith cyn y bleidlais**. Cofiwch wneud hyn yn gynnar, fel bod y Swyddog Canlyniadau'n gallu gwirio eich ffurflenni am gamgymeriadau, a gwneud newidiadau os oes angen – **peidiwch â gadael pethau tan y funud olaf**.

Oes angen i mi ymgyrchu a sut mae gwneud hynny?

O dan gyfyngiadau Covid-19, mae ymgyrchu o ddrws i ddrws wedi cael ei atal ers mis Ionawr, ond mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi y gall **ymgyrchu o ddrws i ddrws a rhannu taflenni ddechrau eto o 8 Mawrth 2021 ymlaen**. Ac wrth gwrs, yn ogystal â'r copïau papur rydych yn eu rhoi drwy ddrysau, gallwch ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, a rhoi posteri i fyny. Siaradwch â pherchnogion siopau lleol i weld a fyddant yn gadael i chi osod poster yn eu ffenest, neu ar unrhyw hysbysfyrddau sydd ganddynt.

Mae sôn am godi cyfyngiadau ar ymgyrchu yn ystod yr wythnosau nesaf, felly efallai y byddwch yn penderfynu argraffu rhai taflenni neu lythyrau, a naill ai eu danfon â llaw neu eu postio. Rhaid bod yn ymwybodol bod cyfyngiadau gwariant ar gyfer pob ymgyrch, hyd yn oed ar lefel Plwyf, felly mae'n rhaid i chi wneud nodyn o'r hyn rydych chi'n ei wario a'i gyflwyno i'r Swyddog Canlyniadau ar ôl yr etholiad (hyd yn oed os na fyddwch chi'n ennill!). Mae'r rhain yn rheolau synhwyrol i atal pobl rhag 'prynu' etholiadau drwy daflu arian atynt, ond mae'n golygu ffurflen arall i'w llenwi ac ychydig o gadw cofnodion. Gwnewch nodiadau a chadw derbynebaw ar gyfer pethau fel pecynnau o bapur argraffu, stampiau ac amlenni, ac inc argraffydd. Gellir dod o hyd i'r holl wybodaeth am gyfyngiadau gwariant, a ffurflen i'w chyflwyno, [yma](#).

Byddai taflen syml gyda dim mwy na dwy ochr A4 yn ddigonol ar gyfer etholiad plwyf. Dywedwch wrth bobl **pam rydych chi eisiau sefyll** a **beth rydych yn gobeithio ei newid** neu ei wella yn eich tref neu bentref os byddwch yn ennill. Siaradwch am **beth mae'r dref yn ei olygu i chi**, pa **sgiliau** allwch chi eu cyfrannu i'ch cyngor lleol, a'ch **rhinweddau** (fel ymrwymiad, gwaith caled, sylw da i fanylder ac ati). Cofiwch gynnwys llun hapus ohonoch chi'ch hun a **byddwch yn onest**. Bydd llawer o bobl mor falch o weld rhywun iau yn cyflwyno ei hun fel bod eich taflen yn debygol iawn o gael croeso brwd.

Opsiwn arall sydd hefyd yn gweithio'n dda yw ysgrifennu llythyr gyda llaw yn cyflwyno eich hun, gan esbonio pam eich bod yn sefyll ac ati. Gwnewch gopïau o hwn a'u rhoi drwy ddrysau pobl, mewn amlenni gyda'r cyfeiriadau arnynt os yw hynny'n bosib. Mae pobl yn derbyn cyn lleied o lythyrau go iawn y dyddiau yma a gall y dull yma o weithredu fod yn unigryw. Os yw eich llawysgrifen yn ddarllenadwy, gall y cyffyrddiad personol fod yn effeithiol iawn!

Does dim rhaid i chi anfon un i bob tŷ yn eich plwyf. Gallech ganolbwyntio ar ychydig o strydoedd. Mae'r cyfan yn dibynnu ar faint o ymdrech rydych chi eisiau ei wneud, a pha mor gystadleuol fydd yr etholiad mewn gwirionedd. Gallwch ofyn i'ch Swyddog Canlyniadau am fanylion ynghylch a fu etholiadau heb gystadleuaeth yn eich plwyf yn ddiweddar, i'ch helpu i wneud penderfyniad am hyn.

'Mae gan bobl ifanc yr un faint o hawl â phawb arall i gynrychioli eu cymunedau yn y capasiti hwn.'

Dal ddim yn siŵr? Dyma astudiaeth achos ysbrydoledig i orffen...

Joe Harris yw Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cyngor Rhanbarth Cotswold yn Sir Caerloyw. Yn 28 oed, ef yw arweinydd cyngor ieuengaf y wlad. Cymerodd y Democratiaid Rhyddfrydol reolaeth dros Gyngor Rhanbarth Cotswold ym mis Mai 2019 (roedd wedi cael ei redeg gan y Blaid Geidwadol ers tua 20 mlynedd). Fel Arweinydd Cyngor Rhanbarth Cotswold, ef yn y pen draw sy'n gyfrifol am bennu cyfeiriad y cyngor, gan weithio gyda Chabinet o gynghorwyr eraill (mae pob un ohonynt yn ddigon hen i fod yn rhieni iddo!). Mae Joe wedi gweithio'n agos gyda'i gabinet i greu cynllun corfforaethol cwbl newydd, sy'n pennu cyfeiriad newydd i'r cyngor. Mae'r cynllun hwn yn canolbwyntio'n ganolog ar yr Argyfwng Hinsawdd, darparu tai gwirioneddol fforddiadwy, gwell mynediad i gyfleusterau iechyd a lles, manau gwyrdd i bawb, a chreu adferiad economaidd gwyrdd ar ôl pandemig Covid-19. Nid oedd yr un o'r rhain yn ganolog i waith y cyngor cyn 2019.

Yn 28 oed, mae Joe yn ifanc o gymharu â'r rhan fwyaf o wleidyddion lleol, ond yn hŷn na'r rhan fwyaf o gyfranogwyr a chyn-gyfranogwyr Rhaglen Our Bright Future. Mae'n werth nodi, serch hynny, nad buddugoliaeth etholiad 2019 oedd dechrau gyrfa wleidyddol Joe yn y rhan yma o'r byd. Roedd Joe wedi cael ei ethol i swydd gyhoeddus pan oedd ond yn 18 oed, gan gael ei ethol i Gyngor Tref Cirencester (plwyf sifil, a'r dref fwyaf yn y Cotswolds). Dechreuodd ymddiddori mewn gwleidyddiaeth leol ar ôl i rywun ei fygio yng nghanol y dref ac roedd yn teimlo nad oedd y cyngor a'r heddlu wedi gwneud digon i wneud yr ardal leol yn ddiogel.

Yn fuan ar ôl cael ei ethol i'r Cyngor Tref, daeth Joe yn Faer Cirencester, ac ef oedd y maer ieuengaf yn y wlad bryd hynny. Yn ystod y blynyddoedd nesaf, aeth ati i sefyll yn llwyddiannus ar gyfer Cyngor Rhanbarth Cotswold ac etholiadau Cyngor Sir Caerloyw, sy'n golygu ei fod yn un o grŵp dethol o wleidyddion 'tair het' sy'n perthyn i bob lefel o lywodraeth leol yn ei ardal leol, ac roedd yn allweddol wrth adeiladu sylfaen o gefnogaeth i'w blaid leol a dod o hyd i bobl newydd a oedd hefyd eisiau sefyll yn yr etholiad, a arweiniodd yn y pen draw at ei blaid yn cael rheolaeth dros y Cyngor Rhanbarth yn ei gyfanrwydd.

Drwy gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth leol mewn ffordd uniongyrchol iawn, yn ifanc iawn, mae dylanwad Joe ar ei ardal leol wedi bod yn aruthrol. Mae llais pobl ifanc yn ganolog bellach i'r gwaith mae'r cyngor yn ei wneud, yn bennaf oherwydd mai person ifanc yw'r arweinydd ei hun! Mae materion amgylcheddol, tai fforddiadwy, swyddi cynaliadwy, ac iechyd a lles yn ganolog i gynlluniau'r cyngor, ac mae'r rhain i gyd yn fathau o bethau mae pobl ifanc yn eu gwerthfawrogi mewn gwleidyddiaeth leol, ond sy'n cael eu hanwybyddu yn aml gan y garfan bresennol o gynghorwyr.

'Mae llais pobl ifanc yn ganolog yn awr i waith y cyngor, yn bennaf oherwydd bod yr arweinydd ei hun yn berson ifanc!'

Sut i Gynnal Hystings

Ysgrifennwyd y canllaw hwn gan Emily Beever, Uwch Swyddog Datblygu yn YouthLink Scotland, a Dawn Patterson, Swyddog Prosiect Ieuenctid yn Ulster Wildlife



Mae etholiad yn digwydd yn fy ardal i. Sut gallaf i leisio fy marn?

Mae gan bob plentyn a pherson ifanc yr hawl i leisio'u barn ar faterion sy'n effeithio arnynt, gan gynnwys yr amgylchedd. Mae bron i hanner y bobl ifanc 18 i 24 oed yn y DU yn credu mai'r amgylchedd yw un o'r prif faterion sy'n wynebu'r wlad (ffynhonnell: [YouGov, 2019](#)).

Gall pobl ifanc yng Nghymru a'r Alban bleidleisio yn awr yn 16 oed mewn etholiadau cynghorau lleol, Senedd Cymru a Senedd yr Alban, ac yn 18 oed ar gyfer etholiadau ledled y DU. Yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, gall pobl ifanc bleidleisio yn 18 oed.



Beth yw hystings?

Math o ddigwyddiad sy'n cael ei gynnal fel arfer yn ystod **y cyfnod cyn etholiad** yw hystings, yn **lleol neu'n genedlaethol**. Mae'n gyfle i aelodau'r cyhoedd siarad yn uniongyrchol â phobl a allai fod yn gwneud penderfyniadau yn y pen draw ar gyfer eu hardal, fel cynghorydd lleol neu Aelod Seneddol (AS), a gofyn cwestiynau iddynt am yr hyn y byddent yn ei wneud pe baent yn cael eu hethol. Mae'n arfer **da gwahodd pob ymgeisydd sy'n sefyll yn eich ardal** fel bod aelodau'r gynulleidfa'n gallu clywed amrywiaeth o safbwyntiau a barn.

Gall hystings fod â **chwmpas eang** neu gall fod â **ffocws penodol**, er enghraifft, canolbwyntio ar faterion amgylcheddol neu addysgol yn unig. Gall hefyd fod â **chynulleidfa benodol** fel pobl ifanc, pobl o sefydliad penodol neu o grefydd benodol.

Mae hystings yn ffordd wych i bobl ifanc glywed yn uniongyrchol gan wleidyddion ac i wleidyddion glywed yn uniongyrchol gan bobl ifanc.

1. SEFYDLU TÎM

Mae'n syniad da cael rhai pobl i'ch helpu wrth drefnu'r digwyddiad hystings. Byddai sgiliau cyfryngau cymdeithasol a threfnu'n arbennig o ddefnyddiol.



2. PENDERFYNWCH AR FFORMAT EICH DIGWYDDIAD A'R DYDDIAD/AMSER/LLEOLIAD

Gallai hyn fod ar-lein neu wyneb yn wyneb. Gall hystings wyneb yn wyneb gynnwys costau lleoliad.

Un peth i'w ystyried ar gyfer digwyddiadau ar-lein ac wyneb yn wyneb yw **hygyrchedd**. A all pawb gymryd rhan neu a oes rhwystrau (rhwystrau ffisegol fel grisiau neu rwystrau eraill fel methu deall yr hyn mae'r ymgeiswyr yn ei ddweud)?

Mae gwahanol bethau i'w hystyried wrth gynllunio eich digwyddiad hystings – a fyddwch yn anfon y **cwestiynau** ymlaen llaw neu'n cymryd cwestiynau gan y gynulleidfa yn unig? Pa mor hir fydd eich digwyddiad? Bydd hyn yn dibynnu ar y math o ddigwyddiad, y gynulleidfa ac argaeledd yr ymgeiswyr ond mae tua awr i awr a hanner yn gweithio'n dda fel rheol.

Beth am gynnwys ymgyrch cofrestru pleidleiswyr fel rhan o'ch digwyddiad? Gallai hyn fod mor syml â chael un person yn y lleoliad gyda **chopïau papur o ffurflenni cofrestru pleidleiswyr** neu anfon **dolen at bawb sy'n bresennol i'r dudalen cofrestru pleidleiswyr ar-lein**.

Bydd meddwl am yr agweddau ymarferol yn gynnar yn helpu eich proses gynllunio.

Croeso i Eich Pleidlais Chi – Y Comisiwn Etholiadol



3. DOD I WYBOD PWY YW EICH YMGEISWYR LLEOL A'U GWAHODD

Edrychwch ar y gwefannau neu'r cyfryngau cymdeithasol ar gyfer y gwahanol bleidiau sy'n sefyll yn eich ardal chi. Os na allwch ddod o hyd i'r wybodaeth o hyd, gallech gyfeirio eich gwahoddiad i gangen leol y blaid wleidyddol a gofyn iddynt ei anfon ymlaen at y person cywir.

Yn Senedd Cymru a Senedd yr Alban, ceir ymgeiswyr etholaethol (ymgeiswyr ar gyfer eich ardal benodol) ac ymgeiswyr rhestr (ymgeiswyr ar gyfer eich rhanbarth mwy). Mae pwy rydych yn eu gwahodd yn dibynnu ar ffocws eich digwyddiad hystings ond mae'r ymgeiswyr etholaethol yn lle da i ddechrau.

4. PENDERFYNU AR GYMEDROLWR A'I HELPU I BARATOI

Gall unrhyw un ymgymryd â'r rôl hon ond dylent fod yn deg a sicrhau bod pob ymgeisydd yn cael ei drin yn gyfartal. Gallech hefyd gael **panel o gymedrolwyr** i rannu'r baich gwaith. Mae angen iddynt hefyd allu symud y digwyddiad yn ei flaen ar amser. Dylai'r gwaith paratoi ar gyfer y cymedrolwr gynnwys y canlynol:

- Gwybod beth yw enw a phlaid yr holl ymgeiswyr
- Rhai cwestiynau wrth gefn i'r ymgeiswyr
- **Sgript sylfaenol i gadw amser** a gwybod unrhyw wybodaeth bwysig i'w rhoi i'r gynulleidfa

5. HYRWYDDO EICH DIGWYDDIAD


Bydd yr **hyrwyddo'n** dibynnu ar bwy mae eich digwyddiad wedi'i anelu ato a ble fydd yn cael ei gynnal. Er enghraifft, os ydych yn ei gynnal yn eich ysgol neu mewn canolfan gymunedol leol, efallai y bydd **poster**i'n tynnu sylw pobl ifanc eraill. Os yw eich digwyddiad yn cael ei gynnal ar-lein, efallai mai canolbwyntio ar **gyfryngau cymdeithasol** yw'r dull gorau.

Cofiwch **gynnwys y cyfryngau lleol** i adrodd ar eich digwyddiad. Os byddwch yn gwneud hyn, gwnewch yn siŵr eich bod yn dweud wrth yr ymgeiswyr sy'n siarad yn eich digwyddiad.



5 CYNGOR CYFRYNGAU CYMDEITHASOL GAN YMGYRCHWYR IFANC

1. Cadwch eich neges yn syml, yn glir ac yn gryno.
2. Ewch ati i greu rhestr o gyfrifon cyfryngau cymdeithasol perthnasol (cynrychiolwyr gwleidyddol, lleisiau cymunedol, y wasg leol, elusennau sy'n ymgychu dros faterion perthnasol ac ati). Tagiwch nhw'n rheolaidd pan mae hynny'n briodol.
3. Defnyddiwch leisiau real. Gofynnwch i bobl yn eich grŵp a oes ganddynt brofiad perthnasol neu farn yr hoffent ei rhannu.
4. Peidiwch â chymryd rhan mewn ffraeo ar-lein. Os oes sylwadau negyddol neu drolio, rhwch sylw i hyn yn gwrtais gyda sylw ffeithiol ac wedyn gadael y sgwrs. Cofiwch bob amser i ddiolch i'r rhai sydd wedi eich cefnogi.
5. Cynlluniwch eich ymgyrch a'ch cynnwys ar gyfryngau cymdeithasol gymaint â phosib, ond byddwch yn hyblyg ac ymateb, neu addasu i, unrhyw newidiadau munud olaf neu newyddion sy'n torri. Os byddwch yn penderfynu amserlennu negeseuon, cadwch lygad ar yr hyn sy'n trendio rhag ofn y bydd angen i chi olygu eich cynnwys.



6. CYNNAL EICH DIGWYDDIAD

Pob lwc! Rydych chi wedi gweithio'n galed iawn i gyrraedd y cam yma – da iawn chi a'ch tîm! Mae'r **cyfryngau cymdeithasol** yn ystod y digwyddiad yn ffordd wych o ledaenu neges y gwahanol ymgeiswyr ar gyfer y rhai sy'n methu bod yno.



7. AR ÔL EICH DIGWYDDIAD

Peidiwch â cholli momentwm ar ôl eich holl waith gwych! **Dilynwch** eich digwyddiad drwy e-bostio neu ysgrifennu at yr ymgeiswyr a gymerodd ran i ddiolch iddynt am hynny a'u hatgoffa am eich negeseuon allweddol a'ch ceisiadau. Ar ôl yr etholiad, gallech hyd yn oed wahodd y rhai sydd wedi'u hethol i ymweld â'ch prosiect neu eich sefydliad, neu i gymryd rhan bellach yn eich ymgyrch.

Diolch

Am ymgyrchu

LLONGYFARCHIADAU!

Rydych chi nawr yn gwybod sut i gynnal eich digwyddiad hystings eich hun. **Pob lwc gyda'ch cynllunio a gobeithio bydd eich digwyddiad yn llwyddiant.**



Mae **Our Bright Future** yn bartneriaeth uchelgeisiol ac arloesol o dan arweiniad yr Ymddiriedolaethau Natur. Mae'r rhaglen, sy'n werth £33 miliwn a wedi ei chyllido gan y **National Lottery Community Fund**, yn cynnwys 31 o **brosiectau** ledled y DU sy'n dod â'r sectorau ieuenctid ac amgylcheddol at ei gilydd. Mae pob prosiect yn helpu pobl ifanc 11 i 24 oed i ennill sgiliau a phrofiadau hanfodol, ac i wella eu lles. Ar yr un pryd, maent yn gweithredu fel catalydd i greu newid yn eu hamgylchedd a'u cymuned leol, gan gyfrannu hefyd at economi wyrddach.

